

Adolygiad y Cyngor Osteopathig Cyffredinol o gyrsiau osteopathig a darparwyr cyrsiau

Gradd Meistr mewn Osteopatheg (M.Ost)

Adolygiad adnewyddu cydnabyddiaeth

Prifysgol Abertawe

Chwefror 2014

Rhagair

O dan *Ddeddf Osteopathiaid 1993* y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yw'r corff rheoleiddio statudol ar gyfer osteopathiaid a darparwyr addysg osteopathig. Mae'r Cyngor yn cynghori'r Cyfrin Gyngor ynghylch pa raglenni addysg osteopathig sy'n haeddu statws Cymhwyster Cydnabyddedig (RQ). Mae'r Cyfrin Gyngor yn rhoi statws RQ i raglenni pan fo llywodraethu a rheolaeth darparwr y cwrs a safonau ac ansawdd y rhaglen yn bodloni'r gofynion a bennwyd gan y GOsC. Yn benodol, rhaid i fyfyrwyr fodloni gofynion ymarfer Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC.

Gwneir penderfyniadau ynghylch rhoi, cynnal ac adnewyddu statws Cymhwyster Cydnabyddedig gan y Cyfrin Gyngor yn dilyn adolygiadau o gyrsiau osteopathig a darparwyr cyrsiau. Mae Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yn rheoli rhai agweddau ar yr adolygiadau hyn ar ran y GOsC. Rôl yr Asiantaeth, trwy gynnal adolygiadau o ddarpariaeth addysg uwch a darparwyr ledled y DU, yw cynnal sicrwydd y cyhoedd bod y safonau ac ansawdd addysg uwch yn cael eu diogelu a'u gwella. Wrth ddatblygu ei ddulliau ar gyfer adolygu darpariaeth addysg uwch, mae'r Asiantaeth wedi cyhoeddi Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch (Cod Ansawdd) a deunyddiau cysylltiedig sydd â'r nod o ddarparu cefndir fel y gellir craffu yn briodol.

Adolygiad y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

Mae adolygiad y GOsC yn broses adolygu gan gymheiriaid. Mae'n dechrau pan fydd sefydliadau yn gwerthuso eu darpariaeth mewn dogfen hunanwerthuso. Cyflwynir y ddogfen hon i'r ASA i'w defnyddio gan dîm o 'ymwelwyr' adolygu sy'n casglu tystiolaeth fel y gallant greu adroddiad yn rhoi eu barn ar lywodraethu a rheoli, safonau clinigol ac academiaidd, ac ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae'r gweithgareddau adolygu yn cynnwys cyfarfod â staff a myfyrwyr, arsylwi ar addysgu a dysgu, archwilio gwaith myfyrwyr a aseswyd, darllen dogfennau perthnasol ac archwilio adnoddau dysgu. Mae manylion llawn proses adolygu'r GOsC i'w gweld yn adolygiad y GOsC o gyrsiau osteopathig a darparwyr cyrsiau: *Handbook for course providers*, QAA 2011.

Gall adolygiad GOsC ddilyn un o dair ffurf:

- adolygu ar gyfer y diben o roi statws RQ cychwynnol
- adolygu at ddibenion adnewyddu statws RQ
- adolygu ar gyfer y diben o fonitro gwaith llywodraethu, rheoli, safonau ac ansawdd. Fel arfer bydd 'adolygiad monitro' o'r fath yn archwilio cynnwys adroddiad blynyddol ar y ddarpariaeth, y graddau y cyflawnwyd amodau a osodwyd gan y Cyfrin Gyngor ar y statws RQ, neu unrhyw ddatblygiad pwysig o ran y darparwr neu'r rhaglen osteopathig.

Mewn adolygiad cydnabyddiaeth cychwynnol, mewn adolygiad adnewyddu, ac mewn rhai achosion o adolygiad monitro, gall ymwelwyr wneud un o'r argymhellion canlynol i'r GOsC:

- **cymeradwyo heb amodau**
- **cymeradwyo gydag amodau**
- **gwrthod cymeradwyaeth.**

Argymhelliad ymwelwyr adolygu'r GOsC yw'r argymhelliad a wneir. Wrth wneud ei argymhelliad ei hun i'r Cyfrin Gyngor gall y GOsC ddewis peidio â dilyn argymhelliad yr ymwelwyr.

Mewn rhai adolygiadau monitro nid yw'r GOsC yn disgwyl i'r ymwelwyr wneud argymhelliad ffurfiol ar gyfer y rhaglen.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad adnewyddu cydnabyddiaeth o agweddau ar lywodraethu a rheoli, y safonau academiaidd a gyflawnwyd, ac ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir ym maes osteopathi gan y Coleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd (y Coleg) ym Mhrifysgol Abertawe. Y radd Meistr mewn Osteopatheg (M.Ost) oedd y rhaglen a adolygwyd. Cynhaliwyd yr adolygiad gan ymwelwyr a benodwyd gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC) yn unol â chyfrifoldebau rheoliadol y GOsC am ddiogelu meini prawf Cymhwyster Cydnabyddedig (RQ) o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993. Un o brif amcanion yr adolygiad oedd edrych ar y berthynas rhwng y rhaglen a safon cymhwysedd proffesiynol Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC. Cafodd yr adolygiad ei gwblhau ym mlwyddyn academiaidd 2013-14. Mr Seth Crofts, Dr Jorge Esteves, Ms Fiona Hamilton a Mr Michael Ridout (Cydlunydd Adolygu) oedd yr ymwelwyr yn yr adolygiad.

A Argymhelliad ffurfiol

Yr argymhelliad a welir isod yw'r argymhelliad a wnaeth yr ymwelwyr adolygu i'r GOsC. Wrth wneud ei argymhelliad ei hun i'r Cyfrin Gyngor gall y GOsC ddewis peidio â dilyn argymhelliad yr ymwelwyr.

Argymhelliad yr ymwelwyr ar gyfer y rhaglen M.Ost yw:

- **cymeradwyo gydag amodau**

Wrth 'gymeradwyo gydag amodau' yr amod yw:

- Erbyn Rhagfyr 2014 dylai Prifysgol Abertawe wneud y canlynol:

a) datblygu, gweithredu a gwerthuso strategaeth ar gyfer datblygu staff addysgu osteopathig yn y meysydd canlynol:

i addysgu a dysgu

ii asesu

iii ysgolheictod ac ymchwil (paragraffau 7, 24, 38 a 55).

B Canfyddiadau

Mae'r canlynol yn grynodedb o brif gasgliadau'r ymwelwyr:

Cryfderau

- cymorth a ddarperir gan amgylchedd dysgu rhyngbroffesiynol y Coleg ac arbenigedd staff nad ydynt yn osteopathiaid (paragraff 8 a 25)

- cynllun integredig, a’r cymysgedd o fodiwlau yn y rhaglen (paragraff 10)
- y wybodaeth glir sydd ar gael ar y wefan ynghylch gofynion cyn-gofrestru'r rhaglen osteopatheg (paragraff 27)
- y cymorth sydd ar gael drwy'r tîm Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr (paragraff 32 a 33)
- y sesiynau tiwtorial ychwanegol sydd ar gael i ategu datblygiad sgiliau ymarferol (paragraff 34)
- y mynediad sydd ar gael i wasanaethau llyfrgell ar ac oddi ar y campws (paragraff 39)
- y dulliau a’r mentrau rhagweithiol sydd wedi’u mabwysiadu gan dîm y clinig i recriwtio cleifion a darparu cyfleoedd datblygu sgiliau ar gyfer myfyrwyr (paragraff 44).

Meysydd i'w datblygu

- y cyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu dysgu rhyngbroffesiynol yn y rhaglen (paragraff 8)
- rhywfaint o anghysondeb yn y llinellau cyfathrebu ac adrodd rhwng y gwahanol arholwyr allanol sy'n ymwneud â'r rhaglen (paragraff 16)
- amrywiaeth yn y graddau y mae staff osteopatheg yn ymhél â’r amgylchedd dysgu rhithwir (paragraff 22)
- diffyg effeithiolrwydd yn y prosesau sefydlu staff addysgu a chlinigol (paragraff 24)
- y potensial ar gyfer camddeall gwybodaeth UNISTAT ar wefan M.Ost (paragraff 28)
- lefel ymwybyddiaeth staff osteopatheg o anghenion cymorth ychwanegol myfyrwyr dyslecsig (paragraff 32)
- diffyg gwerslyfrau osteopathi yn y llyfrgell (paragraff 40)
- nid yw rhai o'r ystafelloedd addysgu ac ymarferol yn gwbl briodol ar gyfer maint y grwpiau myfyrwyr (paragraff 42)
- y lefel isel o ymateb gan fyfyrwyr i gyfleoedd adborth (paragraff 53 a 55)
- diffyg ymwybyddiaeth myfyrwyr o’r ffaith bod adroddiadau arholwyr allanol ar gael iddynt (paragraff 54)

C Disgrifiad o'r dull adolygu

Mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad cyffredinol o ddull adolygu'r GOsC. Mae'r dull llawn i'w weld yn y llawlyfr ar gyfer darparwyr cyrsiau.

Mae dull adolygu'r GOsC yn cyfuno ystyried tystiolaeth ysgrifenedig oddi ar y safle gan yr ymwelwyr gydag o leiaf un ymweliad deuddydd â'r darparwr. Ar gyfer adolygiad cydnabyddiaeth ac adnewyddu, chwe wythnos yw'r cyfnod adolygu fel rheol.

Mae'r ymwelwyr yn ofalus wrth ddewis a dethol trywydd eu hymholiadau ac yn canolbwyntio ar eu hangen i sicrhau canfyddiadau ac argymhelliad gan ystyried meini prawf clir. Maent yn mireinio safbwyntiau sy'n dod i'r amlwg ar y ddarpariaeth yn erbyn tystiolaeth sydd mor eang ag y bo modd. Er enghraifft, mae'r hyn a ddywed myfyrwyr neu staff mewn cyfarfodydd yn cael ei brofi yn erbyn ffynonellau eraill o dystiolaeth.

Mae'r dystiolaeth ddogfennol a ddefnyddir fel arfer yn cynnwys cyfrifon ariannol, cynlluniau strategol, rhagamcaniadau ariannol, manylion yswiriant, gwaith myfyrwyr, cofnodion rheoli clinig, adroddiadau mewnol gan bwyllgorau, byrddau a staff unigol sydd â chyfrifoldebau perthnasol, ac adroddiadau allanol gan arholwyr, dilyswyr, cyflogwyr, a chyrff dilysu ac achredu. Mae yna brotocol i staff, myfyrwyr a chleifion gyflwyno gwybodaeth na ofynnwyd amdani am y ddarpariaeth i'r tîm adolygu. Gall y wybodaeth gael ei chyflwyno'n ddienw i'r darparwr os yw'r sawl sy'n ei rhoi'n dymuno hynny. Rhoddodd Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, Prifysgol Abertawe gyhoeddusrwydd priodol i'r protocol a daeth tri darn o wybodaeth na ofynnwyd amdani i law. Paratowyd ymateb gan y Coleg. Ystyriwyd y wybodaeth hon gan y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad.

Mae cyfarfodydd rhwng y myfyrwyr a'r ymwelwyr yn gwbl gyfrinachol; ni phriodolir unrhyw sylwadau i unigolion. Mae yna brotocol ysgrifenedig ar arsylwi ar addysgu a dysgu.

Mae ymwelwyr yn parchu'r egwyddor o gymesuredd yn eu hymholiadau a'u casgliadau dilynol.

Mae nodweddion allweddol adolygiad y GOsC yn cynnwys:

- pwyslais ar y cymwyseddau proffesiynol a ddisgwylir gan osteopathiaid sydd i'w gweld yn Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC
- adolygu gan gymheiriaid: mae timau adolygu'n cynnwys osteopathiaid sy'n gofrestredig ar hyn o bryd ac yn aml o leiaf un ymwelydd llewg sy'n ymwneud ag addysg uwch
- ffocws ar brofiad dysgu'r myfyrwyr, yn cynnwys arsylwi ar addysgu clinigol ac anghlinigol gan yr ymwelwyr yn aml
- hyblygrwydd yn y broses er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar y darparwr; ceir trafodaeth rhwng ASA a'r darparwr am amseriad yr adolygiad a natur y dystiolaeth i'w dangos
- proses a gynhelir mewn awyrgylch o ymddiriedaeth; fel arfer nid yw'r ymwelwyr yn disgwyl dod o hyd i feysydd i'w gwella nad yw'r darparwr wedi eu nodi yn ei ddogfen hunanwerthuso ei hun (SED)
- pwyslais ar lywodraethu a rheoli, gan gynnwys cynnal a gwella safonau ac ansawdd
- defnydd o'r SED fel y ddogfen allweddol: myfyrio a gwerthuso ddylai fod yn sail iddi
- cyfrifoldeb ar y darparwr i ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol: dylai unrhyw ddeunydd a nodir yn y ddogfen hunanwerthuso fod ar gael yn hawdd i'r ymwelwyr
- protocol ar gyfer gwybodaeth na ofynnwyd amdani
- casgliadau ar sail tystiolaeth

- sicrhau mai'r amser a dreulir i gynnal adolygiad yw'r lleiafswm sydd ei angen i alluogi'r ymwelwyr i gyrraedd casgliadau ac argymhellion cadarn
- sicrhau proses dryloyw drwy ddefnyddio'r meini prawf sydd wedi'u cyhoeddi gan y GOsC
- rôl Swyddog Cyswllt y Sefydliad, aelod o staff y darparwr, er mwyn cynorthwyo cyfathrebu effeithiol rhwng yr ymwelwyr a'r darparwr
- y gallu i alw ar gynghorydd arbenigol pellach lle bo angen
- monitro agos gan swyddogion QAA.

D Amcanion cyffredinol y darparwr

1 Lleolir y rhaglen yn yr Adran Astudiaethau Iechyd Rhyngbroffesiynol yng Ngholeg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd (y Coleg). Mae pob rhaglen yn y Coleg yn perthyn i un o bedwar fframwaith a oruchwylir gan Gyfarwyddwr Astudiaethau, ac mae'r M.Ost yn perthyn i'r fframwaith ar gyfer Rhaglenni Cyn-gymhwys. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu dulliau deinamig, rhyngweithiol amlddisgyblaethol ymhellach mewn perthynas ag ymchwil ac addysgu a dysgu, sy'n galluogi'r Coleg i fod yn ddylanwad o bwys yn natblygiad y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn genedlaethol, ledled y DU ac yn rhyngwladol.

2 Mae'r Coleg wedi bod yn cynnig y radd Meistr mewn Osteopatheg (M.Ost) ers mis Medi 2010. Cafodd statws Cymhwyster Cydnabyddedig (RQ) ym mis Gorffennaf 2012, a chafodd ei hail-ddilysu'n ddiweddar gan Bwyllgor Cymeradwyo Rhaglenni'r Brifysgol. Mae'r M.Ost yn gwrs gradd gychwynnol uwch llawn-amser pedair blynedd mewn modiwlau, er mwyn bodloni gofynion Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC (OPS) (2012) a'r *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi* (QAA 2007).

3 Nod y rhaglen yw datblygu lefelau uchel o gymhwysedd academiaidd ac ymarferol a'i diben yw:

- sicrhau bod graddedigion yn datblygu cymhwysedd osteopathig clinigol drwy ddulliau hunan-feirniadol a myfyriol sy'n ymgorffori parthau cysyniadu; datrys problemau; galluoedd myfyriol; galluoedd ymarferol a sgiliau cyfathrebu
- datblygu sgiliau meddwl beirniadol a dadansoddol a dangos meistrolaeth ar faes cymhleth ac arbenigol o wybodaeth a sgiliau, gan ddefnyddio sgiliau priodol i gynnal gwaith ymchwil neu weithgaredd clinigol technegol a phroffesiynol uwch; derbyn atebolrwydd am bob penderfyniad cysylltiedig
- galluogi myfyrwyr i barhau â'u datblygiad proffesiynol ac academiaidd mewn maes arbenigol cysylltiedig trwy astudiaethau clinigol a damcaniaethol priodol a chyflwyno traethawd hir helaeth sy'n gysylltiedig â maes clinigol
- galluogi twf a datblygiad proffesiynol trwy fwy o ddefnydd o sgiliau a phrosesau goruchwyliaeth glinigol
- gwella gallu myfyrwyr i ddylanwadu ar ymarfer a pholisi a chyfrannu tuag at lywodraethu

- hyrwyddo dull o ymarfer osteopathig sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

4 Mae'r tîm addysgu'n cynnwys saith o staff addysgu osteopathig, chwech o osteopathiaid cyswllt ac wyth staff addysgu nad ydynt yn staff osteopathig. Ar hyn o bryd mae 60 o fyfyrwyr wedi cofrestru i ddilyn y rhaglen bedair blynedd. Myfyrwyr blwyddyn 4 yw'r garfan gyntaf i ddilyn y rhaglen, a byddant yn graddio ym mis Mehefin 2014.

E Sylwadau ar y ddarpariaeth

Gwerthusiad o'r safonau clinigol ac academiaidd a gyflawnwyd

Nodau a chanlyniadau'r cwrs (gan gynnwys addasrwydd myfyrwyr i ymarfer)

5 Mae canlyniadau dysgu bwriedig y rhaglen yn adlewyrchu Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC, y *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi*, a disgrifwyr lefel *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yng Nghymru Lloegr a Gogledd Iwerddon* (FHEQ). Mae canlyniadau dysgu bwriedig y modiwlau wedi'u mapio i Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC a'r *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi*.

6 Mae'r nodau a'r canlyniadau dysgu bwriedig yn cael eu cyfathrebu i staff, myfyrwyr ac arholwyr allanol yn nogfen manyleb y rhaglen ac yn llawlyfr y modiwl. Maent yn cyd-fynd â Safonau Ymarfer Osteopathig y GOsC a'r *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi* ac yn adlewyrchu agwedd rhyngbroffesiynol y Coleg at addysgu ac ymchwil.

7 Mae canlyniadau dysgu bwriedig y rhaglen yn adlewyrchu'r pwyslais ar ymarfer osteopathi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn y cyd-destun hwn, mae amgylchedd dysgu rhyngbroffesiynol y Coleg ac arbenigedd staff nad ydynt yn staff osteopathig yn y meysydd dysgu, addysgu ac asesu ac ymchwil yn un o gryfderau'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y Coleg strategaeth datblygu staff sydd wedi'i datblygu'n llawn er mwyn helpu staff osteopathig i ennill a datblygu galluoedd angenrheidiol ym meysydd addysgu, dysgu ac asesu, ysgolheictod ac ymchwil i gefnogi amcanion bwriedig a chanlyniadau dysgu'r rhaglen yn llawn.

8 Nod y rhaglen yw paratoi a galluogi myfyrwyr i ddatblygu'n weithwyr proffesiynol annibynnol sy'n gallu cychwyn ac ymateb i newid mewn amrywiaeth eang o leoliadau. Mae'r pwyslais ar ddysgu rhyngbroffesiynol a chydweithio yn y canlyniadau dysgu bwriedig ac amcanion y rhaglen yn ategu'r nod hwn ac yn gryfder yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae cyfleoedd dysgu rhyngbroffesiynol, gan gynnwys dysgu a rennir a thrafodaethau gyda myfyrwyr gofal iechyd eraill, yn gyfyngedig, ac yn digwydd yn bennaf yn y 'modiwlau agored' terfynol ar seicoleg iechyd a rheoli poen cronig.

Cwricwla

9 Mae'r radd M.Ost yn rhaglen feistr fodiwlaid integredig 480-credyd sy'n cynnwys 120 credyd yr un ar lefelau FHEQ 4, 5, 6 a 7. Mae'r cwricwlwm wedi cael ei werthuso a'i adolygu'n barhaus, gyda mewnbwn gan y tîm osteopathig ac adborth gan fyfyrwyr, defnyddwyr gwasanaethau ac arholwyr allanol. Ers y dilysu cychwynnol yn 2010, mae mân newidiadau wedi cael

eu gwneud i'r modiwlau gwaith ymchwil a datblygiad personol a phroffesiynol i wella'r ffordd y cyflwynir y rhaglen; cymeradwywyd y rhain gan Bwyllgor Ansawdd Cwricwlwm y Coleg ac maent wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen a ail-ddilyswyd. Mae'r cwricwlwm yn bodloni, ac wedi cael ei fapio i, Safonau Ymarfer Osteopathi y GOsC a'r *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi*.

10 Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i integreiddio athroniaeth ac egwyddorion osteopathi, ac mae'n cysylltu theori ac ymarfer drwy ganolbwyntio ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac agwedd amlddisgyblaethol sy'n glinigol berthnasol. Mae 24 modiwl y rhaglen M.Ost yn archwilio strwythur, swyddogaeth a chamweithredu yn y corff dynol, ac yn cysylltu'r themâu hyn ag ymddangosiad clinigol ac egwyddorion osteopathi. Caiff sgiliau clinigol eu haddysgu trwy gyfrwng y modiwlau hyn, yn ogystal ag yn y clinig. Mae modiwlau eraill yn hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymarfer rhyngbroffesiynol, a datblygiad personol a phroffesiynol ac yn cyflwyno rheoli busnes i baratoi graddedigion ar gyfer ymarfer proffesiynol. Mae natur integredig y rhaglen yn un o gryfderau'r ddarpariaeth. Mae'r arholwyr allanol wedi dweud bod cynllun integredig y rhaglen yn arloesol ac ymddengys ei fod yn gweithio'n dda.

11 Yn yr adolygiad blaenorol, gwelwyd bod y rhaglen bresennol yn gyson i raddau helaeth â'r *Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi* a Safon 2000 ac, felly, y gellir ei mapio i'r Safonau Ymarfer Osteopathi. O ystyried y radd M.Ost, mae'n gyson â'r Safonau Ymarfer Osteopathi, fel y nodir yn y crynodeb canlynol.

Thema A: Cyfathrebu a phartneriaeth cleifion - caiff hyn ei gynrychioli ym mhob un o flynyddoedd y rhaglen. Mae Sgiliau Osteopathig 1, 2, 3, 4, 5 a 6, Cyflwyniad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol, Seicoleg a Chymdeithaseg Gymhwysol ar gyfer Gofal Iechyd, Datblygiad Personol a Phroffesiynol Pellach, Personol Parhaus a Datblygiad Proffesiynol, Ymarfer Osteopathi Annibynnol, Seicoleg Iechyd Salwch Cronig a Rheoli Poen yn cyfrannu at bob elfen. Mae Cyflwyniad i Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Cyflwyniad i Reoli Busnes ar gyfer Gofal Iechyd, Datblygu Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth, Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes, Cymhwyso Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth a Thraethawd Estynedig yn cyfrannu at A1 ac A3.

Thema B: Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad - caiff hyn ei gynrychioli yn yr un modd ar draws blynyddoedd 1 i 4. Mae Anatomeg a Ffisioleg 1 a 2, Biomecaneg Glinigol a Delweddu, Sgiliau Osteopathig 1, 2, 3, 4, 5 a 6, Cyflwyniad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol, Pathoffisioleg a Therapiwteg 1 a 2 yn cyfrannu at bob elfen. Mae Datblygu Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth yn cyfrannu at B2 a B4. Mae Cyflwyniad i Reoli Busnes ar gyfer Gofal Iechyd, Sgiliau Rheoli Busnes Datblygiad Personol a Phroffesiynol Pellach, Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes, Datblygiad Personol a Phroffesiynol Parhaus, Ymarfer Osteopathi Annibynnol yn cyfrannu at D3 a D4. Mae Cyflwyniad i Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Cymhwyso Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth a Thraethawd Estynedig yn cyfrannu at B4.

Thema C: Diogelwch ac ansawdd mewn ymarfer - caiff hyn ei bwysleisio yn y rhaglen. Mae Sgiliau Osteopathig 3, 4, 5 a 6 yn cyfrannu at bob elfen. Mae Cyflwyniad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol, Datblygiad Personol a Phroffesiynol Pellach, Datblygiad Personol Proffesiynol Parhaus ac Ymarfer Osteopathi Annibynnol yn cyfrannu at C3, C4, C5, C6, C7, C8 a C9. Mae Sgiliau Osteopathig 1 a 2 yn cyfrannu at C1, C3, C4, C5 a C6. Mae Pathoffisioleg a Therapiwteg 1 a 2 yn cyfrannu at C1, C2, C4, C5 a C8. Mae Seicoleg a Chymdeithaseg Gymhwysol ar gyfer Gofal Iechyd, Seicoleg Iechyd Salwch Cronig a Rheoli Poen yn cyfrannu at C3, C4, C5 a C6. Mae Cyflwyniad i Reoli

Busnes ar gyfer Gofal Iechyd a Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes yn cyfrannu at C4, C5, C6, C7 a C8. Mae Anatomeg a Ffisioleg 1 a 2 a Biomecaneg Glinigol a Delweddu yn cyfrannu at C1.

Thema D: Proffesiynoldeb - ymdrinnir â hyn drwy gydol pob blwyddyn o'r rhaglen. Mae Cyflwyniad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol, Cyflwyniad i Reoli Busnes ar gyfer Gofal Iechyd, Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes, Datblygiad Personol a Phroffesiynol Parhaus ac Ymarfer Osteopathi Annibynnol yn cyfrannu at bob elfen. Mae Sgiliau Osteopathig 1 a 2 yn cyfrannu at D3, D4, D5, D6, D7, D13 a D14. Mae Sgiliau Osteopathig 3 a 4 yn cyfrannu at D3 i D9, D12, D13 a D14. Mae Seicoleg a Chymdeithaseg Gymhwysol ar gyfer Gofal Iechyd, Seicoleg Iechyd Salwch Cronig a Rheoli Poen yn cyfrannu at D1 i D9, D13 a D14. Mae Sgiliau Osteopathig 5 a 6 yn cyfrannu at D1 i D13. Mae Pathoffisioleg a Therapiwteg 1 a 2 yn cyfrannu at D1 i D5. Mae Cyflwyniad i Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Datblygu Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Cymhwyso Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth a Thraethawd Estynedig yn cyfrannu at D2 a D3. Mae Anatomeg a Ffisioleg 1 a 2 a Biomecaneg Glinigol a Delweddu yn cyfrannu at D3.

Asesu

12 Mae'r strategaeth asesu rhaglen wedi'i chynllunio i hyrwyddo integreiddio theori ac ymarfer; i ddatblygu cysyniadau yn ymwneud â phroffesiynoldeb ac ymarfer proffesiynol; i gyflawni sgiliau clinigol priodol; ac i sicrhau bod myfyrwyr yn ymarferwyr diogel. Mae pob modiwl yn greiddiol a rhaid eu dilyn a llwyddo ynddynt, er mwyn symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf. Mewn modiwlau sy'n cynnwys asesiadau lluosog, rhaid i fyfyrwyr basio pob rhan; fodd bynnag, gallant ailgyflwyno asesiadau a fethwyd unwaith.

13 Mae'r Coleg yn defnyddio amrywiaeth eang o asesiadau ffurfiannol a chrynodol perthnasol i alluogi myfyrwyr i gaffael ac arddangos ystod o sgiliau. Mae asesiadau'n cynnwys Arholiadau Ymarferol Gwrthrychol Strwythuredig ac Arholiadau Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig, Arholiadau Adroddiad Labordy, arholiadau ysgrifenedig heb eu gweld (gyda therfyn amser ac wedi'u goruchwyllo), traethodau, cynlluniau busnes, aseiniadau ymchwil, traethodau estynedig, portffolios, profion cymhwysedd clinigol ac asesiadau cymhwysedd clinigol terfynol.

14 Mae'r casgliad o strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol yn briodol i'r deilliannau dysgu bwriedig a'u lefel, ac yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu proffil cymhwysedd priodol ar gyfer ymarfer osteopathi annibynnol. Caiff y strategaeth asesu a manylion asesu llawn, natur ac amseriad adborth, y dull marcio dwbl a'r meini prawf asesu eu cyfleu i fyfyrwyr, staff ac arholwyr allanol.

15 Mae'r Coleg wedi sefydlu rheoliadau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli asesu yn drylwyr. Mae polisiâu asesu'r Prifysgolion a Cholegau yn sail i waith asesu yn y Coleg. Mae'r dull o farcio'r holl asesiadau yn cyd-fynd â rheoliadau'r Brifysgol a gridiau marcio'r Coleg. Ar lefelau FHEQ 4, 5 a 6, mae sampl o'r holl asesiadau yn cael eu safoni gan aelod o'r tîm addysgu, a'r arholwr allanol yn craffu ar sampl bellach o waith. Ar lefel M, ac eithrio'r modiwl Ymarfer Osteopathi Annibynnol, mae'r holl waith yn cael ei farcio gan ddau aelod o'r tîm addysgu, a'r arholwr allanol yn craffu ar sampl ohono. Mae papurau arholiad ac aseiniadau ar bob lefel yn cael eu hadolygu gan yr arholwyr allanol. Ar gyfer asesiadau eraill, megis Arholiadau Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig, mae'r protocolau asesu'n cael eu hadolygu gan yr holl arholwyr sy'n rhan o'r broses ac mae'r arholiadau'n cael eu ffilmio.

16 Dywed yr arholwyr allanol bod y cyfathrebu gyda'r Brifysgol yn dda yn gyffredinol. Mae tîm y rhaglen yn ymateb i'w hadroddiadau ac yn eu defnyddio i wella gwaith addysgu ac asesu'r rhaglen. Fodd bynnag, nid yw rhai cynlluniau gweithredu wedi cael eu monitro'n effeithiol ac anfonwyd rhai samplau o waith myfyrwyr at yr arholwyr yn hwyr, gan gyfyngu ar eu gallu i graffu ar waith a aseswyd cyn y bwrdd arholiadau. Mae angen i dîm y rhaglen sicrhau bod llinellau cyfathrebu cyson rhwng y Coleg a'r arholwyr allanol amrywiol, a bod cynlluniau gweithredu yn cael eu monitro a chymau gweithredu'n cael eu gwerthuso.

17 Mae tiwtoriaid modiwlau'n rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol i fyfyrwyr, sy'n cynnwys gradd ac esboniad o'r rhesymau am y radd a ddyfarnwyd, a beth y gellir ei wneud i wella'r radd mewn gwaith yn y dyfodol. Maen nhw hefyd yn rhoi adborth generig ar fodiwlau drwy'r amgylchedd dysgu rhithwir (VLE). Yn y clinig, mae tiwtoriaid yn rhoi adborth i gefnogi datblygiad cymwyseddau clinigol, gwybodaeth a sgiliau proffesiynol myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn derbyn adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalmwyr hefyd. Mae'r adborth hwn yn galluogi'r tiwtoriaid clinigol i gofnodi cynnydd y myfyriwr ac, yn benodol, i gofnodi a thrafod agweddau proffesiynol. Mae'r holl adborth yn cael ei gofnodi ym mhortffolio'r myfyrwyr ynghyd â myfyrdodau'r myfyrwyr ar ymarfer clinigol. Caiff hyn ei adolygu gan y tîm clinigol bob mis ac ar ddiwedd pob semester. Mae'r ymwelwyr yn cyd-fynd â barn yr arholwyr allanol fod safon yr adborth a roddir i fyfyrwyr, mewn rhai modiwlau, yn uchel iawn.

18 Cafwyd problemau gyda'r Amcan asesiadau Arholiad Ymarferol Gwrthrychol Strwythuredig. Adroddodd yr arholwr allanol bod sgiliau technegol y myfyrwyr, yn asesiadau Blwyddyn 1, yn ddigonol ond nad oedd y broses asesu'n galluogi myfyrwyr i ddangos mwy o dechneg; roedd rhai â gallu technegol gwael yn dal i allu llwyddo mewn asesiad oherwydd ei fformat presennol. Yn ogystal, mae staff yn darparu lefelau amrywiol o adborth, gyda rhai heb ddatganiadau datblygiadol i baratoi ar gyfer asesiadau cyfeirio neu wella gwybodaeth a/neu sgiliau myfyrwyr. Mae gwendidau'n cynnwys y lefel o gymell mewn asesiadau ymarferol a dyfarnu gradd amhriodol i'r myfyriwr. Mae amrywiaeth eang o gwestiynau yn Arholiadau Ymarferol Gwrthrychol Strwythuredig Blwyddyn 3. Mae hyn yn arwain at arholiad ymarferol hirfaith, gyda'r posibilrwydd y gall myfyrwyr sy'n wan mewn un maes wneud iawn am hynny mewn meysydd eraill a llwyddo yn yr arholiad o hyd. Mae yna anhawster hefyd o ran gwahaniaethu rhwng 'digonol' ac 'annigonol' wrth roi marciau i fyfyrwyr. Mae'r Coleg wedi llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran eu gweithredu.

Cyflawniad

19 Bydd y garfan gyntaf o fyfyrwyr osteopathi yn graddio ym mis Mehefin, 2014. Felly nid oes gwybodaeth benodol sy'n ymwneud â chyflawniad ar gael ar hyn o bryd.

Ansawdd y cyfleoedd dysgu a ddarperir

Dysgu ac addysgu

20 Mae'r rhaglen yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm a'r canlyniadau dysgu, gyda'r nod o ddatblygu priodoleddau ymarfer annibynnol. Bwriedir i'r addysgu integreiddio dysgu damcaniaethol a dysgu yn y clinig. Mae'r dulliau a ddefnyddir yn cynnwys: darlithoedd, gyda phrif ddarlithoedd wythnosol thematig; ymarferion a thrafodaethau

grŵp; ymarfer sgiliau; a dysgu gyda chymorth cyfrifiadur, er enghraifft, y defnydd o fideos ar yr amgylchedd dysgu rhithwir (VLE); ac addysgu a dysgu yn y Clinig Osteopathig. Mae adroddiadau arholwyr allanol yn cadarnhau bod y dulliau addysgu yn addas ar gyfer y modiwlau a adolygwyd.

21 Caiff cyfranogiad myfyrwyr yn y dosbarth ei annog drwy ddefnyddio senarios sy'n seiliedig ar broblemau a thrafodaethau mewn grwpiau bach. Yn y clinig, mae'n ofynnol i fyfyrwyr hŷn dderbyn cyfrifoldeb arweiniol am gleifion, ond hefyd i weithio mewn paruau a thimau er mwyn cefnogi dysgu ei gilydd, sy'n cefnogi a chyd-fynd â D8 y Safonau Ymarfer Osteopathi.

22 Mae gan fyfyrwyr fynediad i'r amgylchedd dysgu rhithwir, lle ceir detholiad o ddarlithoedd, rhai gydag erthyglau cysylltiedig o ddiddordeb neu ddolenni i fideos. Nid yw pob tiwtor yn lanlwytho deunydd, ac nid yw rhai ohonynt wedi mabwysiadu arfer academaidd da hyd yma o ran ffynonellau a chyfeiriadau yn eu cyflwyniadau, sy'n gosod esiampl wael i'r myfyrwyr.

23 Mae'r tîm addysgu'r radd M.Ost yn cynnwys tri math o staff: staff addysgu nad ydynt yn gweithio ym maes osteopathi; staff addysgu osteopatheg; ac osteopathiaid cyswllt, er bod rhywfaint o orgyffwrdd yn y ddwy rôl ddiwethaf. Mae'r staff addysgu nad ydynt yn gweithio ym maes osteopathi yn defnyddio'u hymarfer gofal iechyd eu hunain ac eraill, polisi ac ymchwil fel sail ac i roi cyd-destun yr addysgu i fyfyrwyr osteopatheg. Mae staff addysgu osteopatheg yn defnyddio'u hymarfer clinigol, dysgu ôl-raddedig ac mewn rhai achosion, eu gweithgarwch ymchwil. Nid yw'r cyfleoedd ar gyfer ymchwil rhyngbroffesiynol ac osteopathi wedi'u datblygu'n llawn.

24 Mae staff addysgu Osteopatheg yn cymryd rhan mewn dysgu ffurfiol ac anffurfiol a gweithgareddau mentora amrywiol, ac eisoes yn rhan o broses arsylwi gan gymheiriaid. Mae adolygu gan gymheiriaid yn cael ei gyflwyno ledled y Brifysgol. Er bod osteopathiaid cyswllt yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiadol a gynigir gan y Ganolfan Gwella Sgiliau Academaidd a Phroffesiynol, ymddengys nad ydynt yn manteisio ar y cyfleoedd hyn, er bod Pennaeth y Clinig yn arsylwi ar eu haddysgu. Mae cofrestru ar ddyfarniad addysgu'n ofyniad bellach ar gyfer unrhyw staff heb gymhwyster addysgu, er y gall fod cryn oedi cyn dechrau ar y dyfarniad. Mae gan brosesau sefydlu staff addysgu a chlinig ddogfennaeth ategol briodol, ond nid yw'n effeithiol o ran ei nodau datganedig gan nad yw pob aelod mwy newydd o'r staff addysgu yn defnyddio'r adnoddau a'r dulliau addysgu a amlinellir yn y dogfennau hyn.

25 Mae myfyrwyr ar eu hennill drwy ymgysylltu â staff sydd ag arbenigedd a gwybodaeth arbenigol eang. Maent hefyd yn cael budd o ryngweithio gyda myfyrwyr o wahanol ddisgyblaethau gan fod nifer fechan o fyfyrwyr sy'n dilyn llwybrau eraill wedi cofrestru ar ddau o fodiwlau osteopathi'r flwyddyn olaf. Mae sesiynau dyrannu gyda staff a myfyrwyr o'r Coleg Meddygaeth yn cael eu trefnu ar gyfer 2014-15, ac ymddengys bod hyn yn ymateb i gais a wnaed gan fyfyrwyr yn 2011-12.

26 Ffurfiodd y Coleg grŵp cyfranogiad defnyddwyr a gofalgwyr yn 2010, gan lunio strategaeth ar gyfer 2011-13. Mae tîm y rhaglen osteopathi wrthi'n ceisio gwireddu ei hamcanion. Cesglir adborth defnyddwyr gwasanaethau (cleifion) yn ddiennw, caiff ei archwilio a'i adolygu mewn cyfarfodydd tîm clinig; ond hyd yma nid yw hyn wedi cael ei ddefnyddio i lywio addysgu a dysgu.

Cynnydd myfyrwyr

27 Mae gan y Coleg bolisi effeithiol ar recriwtio ac achredu dysgu blaenorol. Mae ymgeiswyr yn gwneud cais trwy UCAS ac yn cael eu cyfweld cyn cael cynnig lle. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd gydymffurfio â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gofynion iechyd galwedigaethol. Mae gwybodaeth glir ar wefan y Coleg ar gyfer darpar fyfyrwyr sy'n cynnwys manylion y gofynion cyn-gofrestru.

28 Mae'r wefan yn cynnwys ystadegau am raddedigion a chyflogaeth hefyd sydd, er yn deillio o ddata UNISTAT y Brifysgol, yn gallu bod yn ddryslyd gan nad oes graddedigion o'r rhaglen M.Ost hyd yma. Dylai'r Brifysgol ochel rhag cyflwyno'r wybodaeth hon mewn modd y gallai darpar fyfyrwyr ei chamddeall.

29 Polisi'r Brifysgol yw cael wythnos sefydlu, ac ategwyd hynny gan dîm y rhaglen yn 2012-13 drwy gynnwys cyflwyniad i'r clinig. Cafodd hyn ei groesawu gan y myfyrwyr. Mae strategaeth newydd wedi cael ei chyhoeddi gan y Brifysgol gyda'r nod o leihau athreuliad, a fyddai'n newid ffocws y cyfnod sefydlu o fod yn weithgaredd 'unwaith yn unig' i weithgaredd mwy parhaus. Nid yw tîm y rhaglen wedi penderfynu eto sut y bydd hyn yn cael ei weithredu'n lleol.

30 Cafodd carfan lawn o 20 myfyriwr ei recriwtio ar gyfer 2013-14. O blith yr 20 a ddechreuodd yn 2010-11, mae 15 yn eu blwyddyn olaf bellach. O blith y 17 a ddechreuodd yn 2011-12, mae 14 yn eu blwyddyn olaf ond un. Er bod 17 o fyfyrwyr yng ngharfan Blwyddyn 1 yn 2012-13, methodd pump amrywiol asesiadau a dim ond 11 aeth ymlaen i lefel 2 ac sydd yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd.

31 Mae pob myfyriwr yn cael tiwtor personol sy'n darparu cymorth bugeiliol ac academiaidd. Mae'r tiwtor personol yn ganolog o ran rhoi cymorth i fyfyrwyr ac mae trefniadau hyblyg ar gyfer cymorth sy'n amrywio yn ôl anghenion academiaidd a phersonol y myfyriwr unigol. Os yw'n well ganddynt, mae myfyrwyr yn gallu ymgynghori â thiwtoriadaid eraill yn dibynnu ar hygyrchedd neu ddewis, er bod rhai wedi wynebu oedi hir a diffyg cefnogaeth. Mae myfyrwyr yn cael cefnogaeth gan diwtoriaid clinig hefyd sy'n cael eu galw'n fentoriaid. Nid oes unrhyw berthynas neu drefniant penodol ar gyfer mentor-mentori; mae'n codi fel rhan o'r rhyngweithio rhwng staff a myfyrwyr yn amgylchedd y clinig.

32 Mae tîm Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr y Brifysgol yn darparu gwasanaethau integredig, proffesiynol, sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr ac yn cynnig gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth i alluogi pob myfyriwr i ddatblygu a chyflawni eu llawn botensial. Mae'r ddogfen hunanwerthuso'n datgan nad oes unrhyw fyfyrwyr ag anabledd hysbys wedi cofrestru ar y rhaglen, fodd bynnag, mae'r staff a'r myfyrwyr yn cadarnhau bod myfyrwyr sydd â dyslecsia ar y rhaglen M.Ost. Mae lefel isel o ymwybyddiaeth ymysg y tîm osteopathig ynglŷn â'r addasiadau y gall fod eu hangen o ran addysgu a dysgu, a'r ddarpariaeth adnoddau ar gyfer myfyrwyr o'r fath.

33 Mae yna lefelau lluosog o gefnogaeth academiaidd ar gael, gan y tiwtor dosbarth neu arweinydd modiwl, y tiwtor personol, Arweinydd y Rhaglen, Pennaeth y Clinig, y Pennaeth Adran, hyd at y Cyfarwyddwr Ansawdd. Ceir sesiynau sgiliau astudio ym mhob blwyddyn o'r rhaglen drwy'r modiwlau datblygiad personol sy'n cael eu cyflwyno gan Raglen Llwyddiant Academiaidd y Brifysgol.

34 Mae presenoldeb yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig o safbwynt athreuliad, a chaiff ei fonitro'n ofalus. Mae'n llai eglur sut y nodir y rhai a allai fod mewn perygl yn academiaidd yn ystod camau cynnar y rhaglen, yn enwedig os ydynt yn methu â chyflwyno drafftiau o waith. Gan amlaf

mae tiwtoriaid yn gweld gwendidau mewn sgiliau ymarferol (yn y dosbarth neu glinig) a threfnir sesiynau tiwtorial adferol ychwanegol.

35 Mae gan diwtoriaid clinigol gyfrifoldeb hefyd i gofnodi a thrafod agweddau proffesiynol. Mae'r holl adborth o'r clinig yn cael ei gofnodi ym mhortffolios y myfyrwyr ynghyd â myfyrdodau'r myfyrwyr ar ymarfer clinigol, a chaiff ei adolygu gan y tîm clinigol bob mis ac ar ddiwedd pob semester. Mae manteision i'r system newydd o asesu cymhwysedd clinigol yn barhaus. Dengys trafodaethau gyda staff bod yna ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â myfyrwyr sy'n llwyddo mewn cymhwysedd, ond yn methu â chynnal y safon honno wedyn. I ddechrau, byddai hyn yn cael sylw drwy gynllunio gweithredu; byddai unrhyw faterion sy'n parhau yn cael eu rheoli drwy broses Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

36 Mae cefnogaeth ar gyfer traethodau estynedig myfyrwyr wedi cael ei gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod goruchwylydd sydd â phrofiad yn y fethodoleg a ddewiswyd gan y myfyriwr wedi'i baru ag osteopath (a fydd yn newydd i oruchwylio ar lefel meistr gan amlaf). Mae adborth i fyfyrwyr o asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn amserol ar y cyfan ac yn galluogi myfyrwyr i wella eu dealltwriaeth.

Adnoddau dysgu

37 Mae'r saith aelod o staff addysgu osteopatheg yn cyfateb i 5.2 cyfwerth ag amser llawn (FTE) ac mae'r chwech osteopath cyswllt ar gontractau 0.1 cyfwerth ag amser llawn yr un. Mae wyth o staff addysgu nad ydynt yn gweithio ym maes osteopathi yn cyfrannu at y modiwl addysgu. Ymhlith yr osteopathiaid ceir cyfran uchel o staff a benodwyd yn ddiweddar a staff sydd heb ddechrau eu hyfforddiant athrawon hyd yma. Nid yw gweithgareddau sefydlu a mentora'n ddigonol i sicrhau profiad addysgu a dysgu cyson i fyfyrwyr.

38 Mae gan yr holl staff a gyflogir yn y Brifysgol fynediad at ystod eang o gyfleoedd datblygu staff a chânt eu hannog i fynychu unrhyw gyrsiau hyfforddi perthnasol sy'n cael eu trefnu a'u rheoli ar y campws gan y Ganolfan Gwella Academaidd a Phroffesiynol. Mae staff parhaol yn cymryd rhan mewn dysgu ardystiedig, rhai yn Abertawe, ac eraill mewn prifysgolion eraill. Mae gan staff cyswllt gefndiroedd a diddordebau amrywiol, ond nid ydynt yn rhan o weithgareddau datblygu ar y safle yn gyson. Aeth rhai ar 'ddiwrnod cwrdd i ffwrdd'. Caiff diwrnodau mentora eu hyrwyddo fel cyfrwng allweddol ar gyfer datblygu a gosod safonau, fodd bynnag, nid ydynt wedi digwydd mor rheolaidd â'r disgwyl, ac nid yw presenoldeb yn cael ei gofnodi.

39 Mae llyfrgell y campws a'i chyfleusterau yn hynod hygyrch. Mae'n agor am oriau estynedig, gan gynyddu'r oriau i agor 24 awr y dydd yn ystod cyfnodau arholiadau. Mae cymorth staff ar gael saith diwrnod yr wythnos, ac mae yna lyfrgellydd pwnc penodol. Mae mynediad diwifr ar gael ledled y campws a gall myfyrwyr gael mynediad i'r rhyngwrwyd ac adnoddau mewn safleoedd sydd wedi'u cysylltu o bell, er enghraifft, ysbytai lleol.

40 Mae gan y llyfrgell ddewis da o werslyfrau sy'n ymdrin â meddygaeth a meysydd pwnc cysylltiedig eraill fel cymdeithaseg, seicoleg ac ymchwil. Fodd bynnag, mae'r adran osteopatheg yn annigonol i gefnogi cynnwys y modiwlau osteopathi lefel 3 a 4 (SHF307 a SHFM01), yn enwedig mewn osteopatheg perfeddol a phediatrig. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyfateb i'r rhestrau darllen ar gyfer modiwlau, sydd hefyd yn annigonol mewn sawl achos er gwaethaf ail-ddilysu

diweddar. Mae Biomecaneg Glinigol a Delweddu (SHF103) yn gyfyngedig i lyfrau a gyhoeddwyd cyn 1998. Darperir mynediad helaeth i gylchgronau ar-lein gan y Brifysgol. Fodd bynnag, mae myfyrwyr wedi wynebu anawsterau mynediad. Nid yw tîm y rhaglen wedi bod yn ymwybodol o faterion o'r fath.

41 Mae llawlyfrau modiwl a deunydd darlithoedd yn cael eu rhoi ar yr amgylchedd dysgu rhithwir (VLE), weithiau gydag erthyglau ymchwil perthnasol neu ddolenni i ddeunydd clywedol. Mae system newydd (Rebus) yn darparu rhestr ddarllen ryngweithiol, gan alluogi myfyrwyr i glicio ar gysylltiadau i lyfrau a naill ai adfer deunydd yn electronig, neu weld os ydynt ar gael yn y brif lyfrgell neu lyfrgell y clinig, sy'n galluogi mynediad cyflymach a mwy cyfleus i ddeunyddiau.

42 Mae'r ystafell ddosbarth ddynodedig ar gyfer darlithoedd blwyddyn gyntaf yn rhy fach, er gwaethaf y newidiadau a wnaed mewn ymateb i fyfyrwyr yn crybwyll yn gyson mewn gwahanol bwyllgorau ei bod yn anaddas fel gofod addysgu. Mae wyth plinth hydrolig yn yr ystafell ymarferol, sy'n cyfyngu ar ei hyblygrwydd pan gaiff ei ddefnyddio gyda'r grŵp blwyddyn gyntaf cyfredol o 20 myfyriwr.

43 Mae'r clinig osteopatheg pwrpasol yn ddigonol ar gyfer anghenion y rhaglen, gyda phedair ystafell ymgynghori sydd ag offer da, ac mae ar agor o 0900 tan 1700 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae aelodau o staff y Brifysgol, myfyrwyr a'r cyhoedd yn gallu gwneud defnydd o'r cyfleusterau. Mae yna ystafell fach ar gyfer tiwtorialau gyda lle i wyth o fyfyrwyr, ac felly mae'n orlawn pan fydd sesiynau rhwng grwpiau yn cael eu cynnal. Mae yna dderbynfafa a swyddfeydd staff yn rhan o'r clinig hefyd.

44 Mae presenoldeb a dosbarthiad cleifion i fyfyrwyr yn cael ei reoli a'i archwilio'n ofalus. Mae tîm y clinig wedi gweithio'n galed i chwilio am ffyrdd o recriwtio cleifion, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad dysgu digonol. Ar adeg yr ymweliad, roedd y niferoedd yn ddigonol i alluogi myfyrwyr i gyrraedd *canllaw'r Datganiad meincnod pwnc: Osteopathi* o 50 o gleifion newydd i bob myfyriwr. Mae cysylltiadau ag adran Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol, cynghorau lleol, cymdeithas tai, a Bwrdd Iechyd y GIG yn lleol i gyd i'w canmol.

Llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheolaeth ariannol a rheoli risg)

45 Sefydlwyd y Brifysgol gyntaf ym 1920. Mae'n disgrifio ei hun fel prifysgol a arweinir gan ymchwil a'i llywio gan ymarfer sy'n ceisio cynhyrchu graddedigion byd-eang, wedi'u haddysgu a'u paratoi i gyflawni'n nodedig yn bersonol a phroffesiynol. Nod y Brifysgol yw darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr, gydag addysgu o'r ansawdd uchaf.

46 Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd yw'r coleg mwyaf yn y Brifysgol. Mae ganddo genhadaeth glir, yn ymwneud â datblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil ac addysg sydd yn cynnal poblogaeth de-orllewin Cymru, sy'n cael ei gyfleu'n glir i staff ar bob lefel. Mae'r Coleg yn gartref i amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, gan gynnwys nyrsio, bydwreigiaeth, gwaith cymdeithasol a gwyddor barafeddygol. Osteopathi yw'r ychwanegiad diweddaraf at y portffolio proffesiynol o raglenni ac fe'i cymeradwywyd yn gyntaf yn 2010. Amcan y Coleg yw ennill cydnabyddiaeth fel canolfan ragoriaeth sy'n cyfrannu at bolisi, ymarfer ac addysg ym maes osteopathi.

47 Mae'r tîm arweinyddiaeth cydlynol a rhagweithiol yn rheoli datblygiad strategol a darpariaeth weithredol y ddarpariaeth osteopatheg. Mae Pennaeth y Coleg yn gyfrifol am reolaeth strategol ac effeithiolrwydd profiad y myfyrwyr yn gyffredinol. Mae'r Pennaeth yn cael ei gefnogi gan dri dirprwy bennaeth a Phennaeth Coleg Cyswllt (Busnes a Chyllid). Y grŵp hwn yw tîm gweithredol y Coleg. Mae'r tîm yn gweithio'n gydlynol i lunio datblygiad strategol y Coleg ac i adolygu profiad cyffredinol y myfyrwyr. Mae gan y tri dirprwy bennaeth gyfrifoldeb unigol am fenter a datblygu sefydliadol, addysgu, dysgu ac ymarfer proffesiynol ac ymchwil.

48 Darparodd tîm gweithredol y Coleg arweinyddiaeth proffil uchel a chynllunio strategol yn ystod y paratodau helaeth ar gyfer datblygu a gweithredu'r rhaglen M.Ost. Mae wedi gwneud cyfraniad sylweddol at greu clinig hynod lwyddiannus sydd wedi'i gynllunio'n strategol mewn ymgynghoriad ag uwch reolwyr o'r Brifysgol a chynrychiolwyr yr economi iechedd leol. Mae'r tîm uwch yn y Coleg yn darparu cefnogaeth barhaus i'r clinig er mwyn sicrhau bod cyfleoedd lleoliad effeithiol yn cael eu cynnal. Mae tîm gweithredol y Coleg wedi cefnogi sefydlu'r tîm osteopatheg ac wedi darparu mewnbwn parhaus i'r gwaith o recriwtio a datblygu'r tîm newydd a'i gymathu i'r amgylchedd addysg uwch.

49 Mae'r ddarpariaeth osteopatheg yn rhan o'r Adran Astudiaethau Iechyd Rhyngbroffesiynol sydd â strwythur rheoli clir ac effeithiol. Mae gan Bennaeth yr Adran gyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros y disgyblaethau arbenigol yn y maes hwn. Mae arweinyddiaeth disgyblaeth-benodol yn cael ei darparu gan reolwyr rhaglen ar gyfer pob maes arbenigol, gan gynnwys osteopathi. Mae'r rheolwyr rhaglen yn sicrhau bod cynnwys cwricwlwm priodol a phrofiad proffesiynol a chlinigol yn cael eu cynnal yn eu meysydd disgyblaeth. Mae casgliad o strategaethau cymorth rhagweithiol wedi'u rhoi ar waith gan y Pennaeth Adran i gydnabod y ffaith bod sawl aelod o staff wedi'u penodi'n ddiweddar yn y tîm osteopatheg a'u profiad cyfyngedig yn yr amgylchedd addysg uwch.

50 Mae gan y Brifysgol broses cynllunio busnes effeithiol sefydledig sy'n cael ei rheoli drwy gynhyrchu dogfen bwriad strategol flynyddol. Mae'n golygu bod gofyn i bob coleg gynhyrchu cynllun busnes, yn rhoi manylion incwm a gwariant ac yn amlinellu hyfywedd holl weithgarwch y coleg. Mae hyn yn ffurfio strategaeth effeithiol ar gyfer rheoli risg ac yn caniatáu i'r Brifysgol ymrwymo i weithgareddau'r coleg a sicrhau cynaliadwydd y ddarpariaeth. Mae uwch aelodau o staff y coleg yn cyflwyno'r cynllun hwn i aelod o dîm gweithredol y Brifysgol mewn cyfarfod her.

Llywodraethu a rheoli (cynnal a gwella safonau ac ansawdd)

51 Mae gan y Coleg strwythur pwyllgorau cynhwysfawr yn unol â fframwaith llywodraethu'r Brifysgol. Mae'r pwyllgorau hyn yn canolbwyntio ar ansawdd y dysgu a'r addysgu a monitro rhaglenni. Mae Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg yn monitro pob agwedd ar addysgu, dysgu ac asesu rhaglenni a gyflwynir yn y Coleg. Mae hefyd yn gyfrifol am gydlyn a chynnal adolygiadau o raglenni a modiwlau. Mae Pwyllgor Ansawdd Cwricwlwm y Coleg yn gyfrifol am gymeradwyo a dilysu pob rhaglen a modiwl newydd, ac addasiadau i rai sydd eisoes yn bodoli. Mae gan bob dyfarniad Fwrdd Astudiaethau sy'n cynhyrchu Adolygiad Rhaglenni Blyneddol ac yn ymateb i adborth myfyrwyr. Gwaith y byrddau hyn yw gwella profiad dysgu myfyrwyr. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr yn nodwedd allweddol o'r Byrddau Astudio. Mae'r fforymau hyn yn rhoi disgrifiad manwl o ddarpariaeth weithredol y rhaglen M.Ost ac yn dangos ymrwymiad i adolygu a gwella'r ddarpariaeth.

52 Mae gan y Coleg fframwaith priodol o bolisiau a gweithdrefnau sy'n arwain y gwaith o ddatblygu ac adolygu rhaglenni. Maent mewn Cod Ymarfer ar gyfer Sicrhau Ansawdd, a ddatblygwyd yn ganolog gan y Brifysgol i sicrhau cysondeb o ran ymarfer ar draws y sefydliad. Mae yna broses sefydledig ar gyfer cwblhau'r Adolygiad Rhaglenni Blynnyddol, gan gynnwys adolygiad o adborth gan fyfyrwyr ac ystyriaeth o athreuliad a pherfformiad myfyrwyr. Caiff yr adroddiadau eu hystyried yng nghyfarfodydd y Bwrdd Astudiaethau, a bydd cynlluniau gweithredu manwl yn cael eu cynhyrchu a'u monitro gan y Bwrdd Astudiaethau. Mae egwyddorion y Cod Ansawdd wedi cael eu defnyddio i lywio polisiau'r Coleg. Dangosodd y staff ddealltwriaeth dda o ddarpariaethau'r Cod Ansawdd.

53 Mae amrywiaeth o fecanweithiau ar waith i gael adborth gan fyfyrwyr. Mae gwerthusiadau ar-lein o fodiwlau'n cael eu cynnal, adroddiadau manwl yn cael eu casglu'n ganolog a'u dychwelyd i'r arweinwyr modiwl a Phennaeth y Coleg. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi dadansoddiad manwl o brofiad y myfyrwyr. Mae'r Coleg wedi cydnabod y bu gostyngiad sylweddol yn y gyfradd ymateb ar gyfer gwerthusiadau modiwl ers symud i gasglu data ar-lein ac mae'n mynd i'r afael â hyn.

54 Mae'r Coleg yn gwneud defnydd da o arholwyr allanol, sy'n cyfrannu'n effeithiol at y gwaith o adolygu safon asesiadau academiaidd a'r rhai sydd yn seiliedig ar ymarfer. Mae arholwyr allanol yn darparu mewnbwn i'r broses o ystyried newidiadau i'r rhaglen hefyd. Gofynnir i arholwyr allanol sicrhau bod y rhaglen yn rhoi ystyriaeth briodol i ddatganiadau meincnodi pwnc ac yn rhoi cyngor ar gwricwla er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau'n gyfredol. Caiff adroddiadau'r arholwyr allanol eu hystyried yn ofalus gan reolwyr rhaglenni a chaiff unrhyw faterion a godir eu datrys yn brydlon. Mae Pwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Coleg yn ystyried yr adroddiadau'n ffurfiol a chaiff cynlluniau gweithredu eu datblygu ac arferion da eu lledaenu drwy'r coleg i gyd. Cyhoeddir adroddiadau'r arholwyr allanol ar ffurf crynodeb ar yr amgylchedd dysgu rhithwir, fel bod myfyrwyr yn gallu cael gafael ar adborth arholwr allanol sy'n berthnasol i'w cwrs. Canfu'r tîm adolygu nad yw myfyrwyr yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleuster hwn.

55 Dywed y Coleg bod pwyllgorau ymgynghorol myfyrwyr-staff yn cael eu hannog fel fforwm i drafod materion yn ymwneud â'r profiad dysgu. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr osteopatheg wedi mynd i'r cyfarfodydd hyn yn gyson, gan arwain at golli cyfle gwerthfawr i gael adborth gan fyfyrwyr.

56 Mae'r Coleg yn cefnogi staff academiaidd drwy fynediad at gyfleoedd datblygu staff, a chaiff staff eu hannog i fynychu unrhyw gyrsiau hyfforddi perthnasol sy'n cael eu trefnu a'u rheoli ar y campws gan y Ganolfan Gwella Academiaidd a Phroffesiynol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff academiaidd parhaol newydd nad ydynt eisoes yn meddu ar gymhwyster addysgu i ymgymryd â Thystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch (PG Cert HE) fel rhan o'r broses brawf. Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon, mae staff yn cael eu cefnogi i ddod yn Gymrodyr yr Academi Addysg Uwch. Yn ogystal â datblygu staff pedagogaidd, mae detholiad cyfyngedig o ddigwyddiadau datblygu staff pwrpasol wedi cael eu darparu ar gyfer y staff osteopatheg yn arbennig. Mae staff yn cael cymorth i fynd i gynadleddau a diwrnodau astudio sy'n berthnasol i'w disgyblaeth eu hunain a gwella eu gwybodaeth arbenigol am eu pwnc. Mae darpariaeth datblygu staff gynhwysfawr yn cynnig cyfleoedd helaeth i staff ddatblygu eu haddysgeg. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu trosi'n llawn i gynllun cydlynol ar gyfer datblygu'r staff academiaidd newydd hyn mewn ffordd integredig, a sicrhau bod datblygiad staff yn diwallu eu hanghenion newidiol.

Cyfarfodydd a dogfennau

Cyfarfodydd a gynhaliwyd

Trosolwg o'r ddarpariaeth

Rheoli a Gwellu Safonau ac Ansawdd

Cyfarfod staff

Canlyniadau Dysgu Bwriedig, Cwricwla, Asesu a Chyrhaeddiad Myfyrwyr

Addysgu a Dysgu, Dilyniant Myfyrwyr ac Adnoddau Dysgu

Materion Llywodraethu a Rheoli Corfforaethol

Cyfarfod myfyrwyr

Ymweliad llyfrgell

Cyfarfod eglurhad 20-02-2014

Prif ddogfennau

SED Prifysgol Abertawe ar gyfer RQ 2014

Cynllun Campws SED

Manyleb Rhaglen M.Ost

Naratif M.Ost Osteopatheg a Strwythur y Rhaglen

Pro formas modiwlau

Dogfen Mapio Safonau Meincnodi QAA

Dogfen Mapio Safonau Ymarfer Osteopathi

CV's Tîm y Rhaglen

Cynllun Busnes y Clinig 2013

Cylch gorchwyl llywodraethu clinigol

Llawlyfr Clinigol Tiwtoriaid 2013-14

Llawlyfr Addysgu ar gyfer Osteopathiaid Cyswllt

Templed y Llawlyfr Coleg Israddedig 2012-13-TERFYNOL

Llawlyfr y Rhaglen M.Ost 2013-14

Llawlyfr Clinig Myfyrwyr M.Ost 2013-14

Dogfen Sicrhau Ansawdd RQ M.Ost

Cod Ymarfer Prifysgol Abertawe

Allanol-Arholwyr-Cyfarwyddyd-2012-13-TERFYNOL

Dogfennau Polisi

Polisi Sefydlu

Polisi Datblygu Staff

Llawlyfr APECS 2014

Polisi Galluogi Perfformiad 2013V3 240,913

Yswiriant Abertawe EL-PL

Darpariaeth TG llyfrgell M.Ost 2013

Llyfryn Sefydlu Gwyddor Iechyd Medi 13

Risg Ariannol a Gweithredol Cyfunol 2011-2012

Dogfen Ymateb Ceisiadau am Wybodaeth Cyfarfod Rhagarweiniol Prifysgol Abertawe

Strwythur Pwyllgorau ar lefel Coleg

Strwythur Adrodd Pwyllgorau
Rheoli Modiwlau
Cofnodion Hyfforddi
Arsylwadau Addysgu
Rhaglen M.Ost ac Ymchwil
Llawlyfr Traethawd Estynedig SHFM02 2013 14
Cynllun Busnes
Cod Ymarfer Sicrhau Ansawdd
Cofnodion CQ1213.2 9 10 13
MNPAC33 Drafft 1
Cofnodion Byrddau Astudiaethau 9.1.14
Cofnodion 13.2.1 LT1213.8 20 3 2013
Crynodeb o adroddiadau arholwyr allanol ac ymatebion
M.Ost Ebrill 11 12
M.Ost Ebrill 12 13

Gwerthusiadau Modiwl:
SHF102 SHF102 Anatomeg a Ffisioleg 2

Gwerthuso Modiwl SHF301 Datblygu Sgiliau Rheoli Busnes
Gwerthuso Modiwl SHF304 Sgiliau Osteopathig
Gwerthuso Modiwl SHF303 Biomecaneg Glinigol
Gwerthuso Modiwl SHF103 Biomecaneg Glinigol a Delweddu
Gwerthuso Modiwl SHF106 Sgiliau Osteopathig 2
Gwerthuso Modiwl SHF107 Cyflwyniad i Ddatblygiad Personol a Phroffesiynol
Gwerthuso Modiwl SHF201 Cyflwyniad i Reoli Busnes
Gwerthuso Modiwl SHF202 Datblygu Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth
Gwerthuso Modiwl SHF204 Sgiliau Osteopathig
Gwerthuso Modiwl SHF206 Pathoffisioleg a Therapiwteg
Gwerthuso Modiwl SHF207 Seicoleg Gymhwysol a Chymdeithaseg ar gyfer Gofal Iechyd

Cais am Wybodaeth Ychwanegol Prifysgol Abertawe
Niferoedd y myfyrwyr a dim dilyniant 2012-13
Niferoedd y myfyrwyr a dim dilyniant 2011-12
Niferoedd y myfyrwyr a dim dilyniant 2010-11
Gwerthusiad Cwm Taf
Crynodeb Ariannol Clinig Prifysgol Abertawe 2011-12
Crynodeb Ariannol Clinig Prifysgol Abertawe 2012-13
Crynodebau Clinig
Arsylwadau addysgu
Adolygiad o waith myfyrwyr (SWANS)
Enghreifftiau adborth ar-lein ar fodiwlau gyda sylwadau myfyrwyr
Cofnodion drafft cyfarfod myfyriwr: Cwrs Osteopathi 14-02-2014
Pwyllgorau Cylch Gwaith Iefel Coleg
Gwybodaeth ddigymell 1

Gwybodaeth ddigymell 2
Gwybodaeth ddigymell 3
Gwybodaeth ddigymell - ymateb cyfunol
Rhestr o lyfrau llyfrgell
Nifer y ceisiadau
Cofrestriadau heblaw myfyrwyr osteopatheg ar y 'modiwl agored'
Matrics Rheoli CHHS - nodyn esboniadol
Gwybodaeth am 'ddiwrnod cwrdd i ffwrdd' mentoriaeth a thîm
Gwybodaeth am gylch cynllunio Busnes Prifysgol Abertawe
Taflen pellter a dysgwyr gydol oes yn Abertawe (DALLAS)
Proses Recriwtio a Dethol Prifysgol Abertawe
Disgrifiadau Rôl Mentor Clinigol mewn Osteopatheg, Cyfarwyddwr Rhaglen, Darlith Osteopatheg,
Athrawon Graddfa Prifysgol
Disgrifiad Cynllunio Busnes ychwanegol
Grŵp cyfranogiad gofalwyr a defnyddwyr ToR CHHS
Strategaeth Cyfranogiad Grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau (Iechyd) 2011-13
Holiadur ymgysylltu defnyddwyr a gofal y Gwasanaeth Clinig Osteopathig / sampl archwiliad
boddhad cleifion
Grid datblygu academiaidd a phroffesiynol/ymchwil staff osteopatheg

QAA744 - R3566 – 14 Mehefin

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2014
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Ffôn: 01452 557 000
E-bost: enquiries@qaa.ac.uk
Gwefan: www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786